# Disgrifiad Swydd Staff Cymorth

| | |
|---|---|
| **Teulu swyddi:** | **Rheoli Busnes a Gweinyddiaeth** |
| **Band cyflog:** | **Band 3** |
| **Ystod cyflog**:<br>**(pro rata)** | **£26,345 – £33,873**<br>Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd hyd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band. |

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | **Swyddog Cymorth i'r Grŵp** |
| **Cyfeirnod:** | **MBS-087-26** |
| **Swyddfa:** | **Y Ceidwadwyr Cymreig** |
| **Oriau gwaith:** | **37 awr yr wythnos**<br>Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio y tu allan i'r oriau gwaith arferol. Bydd angen gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn achlysurol. |
| **Natur y penodiad:** | **Tymor Penodol am 12 mis**<br>Os bydd Arweinydd y Grŵp yn newid, neu os bydd nifer Aelodau'r Grŵp yn newid, mae'n bosibl y daw'r swydd hon i ben. |
| **Lleoliad:** | **Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**<br>Efallai y bydd gofyniad i ddeiliad y rôl deithio ar gyfer y gwaith o bryd i'w gilydd. |

| **Gwybodaeth ychwanegol:** |
|---|
| Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn (hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran). |
| Er gwybodaeth, gwneir y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch. |

# Y rôl

| Rheoli Busnes a Gweinyddiaeth |
| --- |
| Mae deiliaid swyddi Rheoli a Gweinyddu Busnes yn gyfrifol am ddarparu cymorth ym maes rheoli, ynghyd â chymorth arbenigol a gweinyddol, ar lefel sy'n briodol i'r radd. Gall y gwaith a wneir gynnwys darparu cymorth ysgrifenyddol, clerigol a gweinyddol; gweithredu polisi a phrosesau; darparu cyngor a chymorth arbenigol, er enghraifft mewn perthynas â chyllid neu reoli pobl; arweinyddiaeth a rheoli prosiect.<br>**Mae'r prif nodweddion fel a ganlyn:**<br>• Datblygu a chynnal perthnasoedd sy'n cefnogi rhwydweithiau mewnol ac allanol.<br>• Cynrychioli'r maes gwaith mewn cyfarfodydd.<br>• Cydgysylltu llif gwaith a chanlyniadau tîm bach sy'n cyflawni tasgau cysylltiedig.<br>• Ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi mewn perthynas â gwaith yr Aelodau neu'r swyddfa.<br>• Mae graddau uwch yn debygol o gyfrannu at bennu cyfeiriad blaenoriaethau ac arferion gwaith, monitro llif gwaith a nodi anghenion hyfforddi ar gyfer lefelau is.<br>• Cynorthwyo i reoli swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys adnoddau dynol, eiddo, iechyd a diogelwch a diogelu data.<br>• Paratoi gohebiaeth ac adroddiadau, gan gynnwys negeseuon e-bost a llythyrau ar faterion arferol a materion mwy cymhleth.<br>• Darparu neu oruchwylio gwasanaethau rheoli'r adeilad.<br>• Cynorthwyo gyda'r broses o reoli a gweinyddu contractau.<br>• Cynorthwyo a chefnogi prosesau staffio. |
| **Diben y swydd** |
| Bydd **Swyddog Rheoli Busnes a Gweinyddol Band 3** sy'n gweithio i Aelodau o'r Senedd fel arfer yn gyfrifol am gynorthwyo gyda phob agwedd ar redeg swyddfa'r Aelodau, gan gynnwys darparu cymorth gweinyddol yn uniongyrchol i'r Aelodau. |

# Manyleb y person

| Sgiliau ac ymddygiadau |
|---|
| • Disgwylir i ddeiliad y swydd fod yn hyddysg mewn maes gwaith gweinyddol; gallu ateb ystod safonol o ymholiadau gan eraill a gwybod pryd i atgyfeirio ymholiadau mwy cymhleth.<br>• Disgwylir iddynt fod yn hyddysg gyda'r offer a'r cyfarpar ar gyfer y gwaith. Sgiliau TG effeithiol, yn enwedig wrth ddefnyddio pecynnau Microsoft megis SharePoint, Word, Outlook ac Excel.<br>• Sgiliau llafar ac ysgrifenedig da.<br>• Sgiliau trefnu a chynllunio effeithiol.<br>• Y gallu i ddangos sensitifrwydd a sicrhau bod y safonau cyfrinachedd uchaf yn cael eu cynnal.<br>• Dealltwriaeth o’r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus, ac ymrwymiad i’r materion hyn.<br>• Y gallu i weithio ar y cyd fel rhan o dîm. |
| **Gwybodaeth a phrofiad** |
| • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion sy'n berthnasol i waith y Senedd.<br>• Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.<br>• Profiad a dealltwriaeth ymarferol o’r gyfraith ac arfer da sy’n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.<br>• Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy’n agored i niwed. |
| **Meini prawf dymunol** |
| • Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy’n berthnasol i Gymru a’r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.<br>• Yn arddel amcanion a gwerthoedd y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith. |
| **Cymwysterau** |
| • Y gallu i ddangos dealltwriaeth neu brofiad o ystod o weithdrefnau gwaith yn seiliedig ar brofiad gwaith perthnasol a/neu gymhwyster galwedigaethol e.e. NVQ lefel 3 neu 4 neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol. |

| |
|---|
| • Tystiolaeth o sgiliau rhifedd a llythrennedd e.e. TGAU Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol) Gradd C neu uwch, neu brofiad arall addas. |
| **Sgiliau iaith** |
| • Dymunol: Y gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |

# Prif ddyletswyddau

| **Dyletswyddau Gweinyddol** |
|---|
| • Helpu i drefnu amserlen Arweinydd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, gan gynnwys cyfarfodydd, digwyddiadau a threfniadau teithio.<br>• Casglu papurau a deunyddiau briffio i gefnogi Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn y Senedd.<br>• Cadw cofnodion, ymdrin â gohebiaeth, a sicrhau bod cyflenwadau swyddfa yn cael eu cynnal. |
| **Gwaith ymchwil a pharatoi papurau briffio** |
| • Gwneud gwaith ymchwil cefndirol ar faterion polisi, deddfwriaeth a phryderon eraill sy’n codi.<br>• Llunio nodiadau briffio cryno cyn dadleuon, cyfarfodydd neu areithiau, yn ôl yr angen.<br>• Monitro datblygiadau ym mholisïau'r Llywodraeth, adroddiadau pwyllgorau a dadleuon y Senedd, yn ôl yr angen.<br>• Helpu i olrhain deddfwriaeth, gwelliannau a pholisïau'r Llywodraeth sy'n effeithio ar waith Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig. |
| **Cyfathrebu cyhoeddus** |
| • Monitro a drafftio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, a chymedroli ac ymateb i sylwadau ac ymholiadau yn ôl yr angen.<br>• Cefnogi swyddogaethau ymchwil a chyfathrebu Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn ôl yr angen.<br>• Cynorthwyo’r gwaith o ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau a threfnu cyfweliadau ar gyfer Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig.<br>• Helpu i gydgysylltu ymddangosiadau cyhoeddus a chyfweliadau gan Arweinydd a Llefarwyr Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig ar faterion polisi penodol.<br>• Drafftio ymatebion i ohebiaeth. |
| **Rhwymedigaethau yn y gweithle** |
| **Diogelu data / gwybodaeth:**<br>• Cefnogi a chynghori Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig o ran cydymffurfio â’u rhwymedigaethau sy’n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Iechyd, diogelwch a llesiant:**<br>• Cefnogi a chynghori Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig o ran cydymffurfio â’u |

| |
|---|
| rhwymedigaethau sy’n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.<br>**Diogelu:**<br>• Cefnogi a chynghori Aelodau Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy’n agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol. |
| **Arall** |
| • Gweithredu o fewn y gyfraith a’r fframweithiau rheoleiddio y mae’r Aelodau a’r Grwpiau yn gweithredu o’u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).<br>• Cyflawni dyletswyddau eraill yn ôl yr angen i gefnogi Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig. |